**Paratoi ar gyfer dechrau'r Bil Caffael a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).**

Bydd y **Bil Caffael** a’r **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** yn cyflwyno newid mawr i’r ffordd y mae Awdurdodau Contractio Cymru yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Er nad yw’r newidiadau hyn yn debygol o ddod i rym tan ddiwedd 2023, ar y cynharaf, dylai Awdurdodau Contractio Cymru ddechrau cynllunio nawr er mwyn sicrhau eu bod yn barod i fanteisio ar yr hyblygrwydd a’r tryloywder estynedig sy’n gysylltiedig â’r rheolau newydd.

Mae pedwar maes lle bydd ystyriaeth a chamau gweithredu cynnar yn sicrhau bod Awdurdodau Contractio Cymru yn y cyflwr gorau i ddechrau arni’n syth:

**Pobl**

- Nodwch staff o fewn y sefydliad a fyddai'n elwa o gael hyfforddiant perthnasol ar y rheolau newydd. Mae Llywodraeth y DU yn datblygu rhaglen ddysgu, a bydd hyfforddiant atodol ar gael gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ymdrin â gofynion sy’n benodol i Gymru, megis Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) a’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).
- Ystyriwch y capasiti a’r gallu ym maes caffael a rheoli contractau ar draws eich sefydliad, yn enwedig o ran y gofynion rheoli contractau a nodir o dan Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a’r gofyniad yn y Bil Caffael i osod a chyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer contractau dros £2m.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru ar gyfer cylchlythyrau perthnasol i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â diwygio’r broses caffael.

**Prosesau a pholisïau**

- Adolygwch eich strategaethau caffael i wneud yn siŵr eu bod nhw’n cyd-fynd â'r nodau llesiant a'r egwyddorion o fewn Datganiad Polisi Caffael Cymru.
- Diweddarwch eich prosesau i sicrhau eich bod chi’n barod ar gyfer y gofynion newydd yn y Bil Caffael, fel y gofynion tryloywder islaw’r trothwy (gweler WPPN 02/22) a threfniadau yn ôl y gofyn o Fframweithiau a Marchnadoedd Deinamig.
- Gwnewch yn siŵr bod eich prosesau a'ch gweithdrefnau presennol yn gadarn meysydd fel ymgysylltu â’r farchnad ymlaen llaw, gwrthdaro buddiannau a gwerthuso/asesu cyflenwyr, gyda dogfennau llywodraethu sy'n cofnodi penderfyniadau allweddol.
- Adolygwch ddogfennaeth dendro eich sefydliad, gan gynnwys unrhyw delerau ac amodau safonol, fel y gallwch nodi lle bydd angen unrhyw ddiwygiadau pan ddaw’r rheolau newydd i rym.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio Nodiadau Polisi Caffael Cymru sydd wedi’u cyhoeddi, sydd i'w gweld yma, yn rheolaidd.

**Systemau**

- Dechreuwch feddwl a oes angen i'ch timau newid y ffordd maen nhw’n defnyddio'ch systemau e-gaffael presennol (gan gynnwys eich systemau cyllid ac anfonebu) i fodloni gofynion y Biliau.

- Os ydych chi ar fin ail-dendro eich system e-gaffael, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ystyried gofynion y llwyfan deddfwriaethol newydd, er enghraifft cydymffurfio â'r Safon Data Contractio Agored (OCDS), ac ati.
- Adolygwch y data rydych chi'n ei gasglu i nodi potensial ar gyfer gwella mesur canlyniadau llesiant.
- Ystyriwch pa mor barod yw eich sefydliad i fodloni gofynion tryloywder newydd y Bil. Gallai hyn gynnwys nodi lle mae data perthnasol yn byw yn eich systemau presennol ar hyn o bryd. Mae cyfathrebiad ar wahân sy'n trafod systemau a thryloywder yn fwy manwl ar gael ar GwerthwchiGymru, a bydd diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu darparu wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Pontio**

- Sicrhewch fod cofrestrau a manylion contractau yn gyfoes.
- Adolygwch lifau er mwyn nodi unrhyw weithgarwch caffael arfaethedig dros y 18 mis nesaf gyda gwerth contract o fwy na £2m.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar TimDiwygiorBrosesGaffael@llyw.cymru